

DEWIS
Fy NghHTh

Ymgeiswyr am Ardal Heddlu Dyfed-Powys

Mae etholiadau Comisiynwyr Heddlu a
Throseddu yn cael eu cynnal ar 2 Mai yng
Nghymru a Lloegr.

Darganfyddwch pwy yw eich ymgeiswyr lleol a
sut i bleidleisio.

Cynnwys

Ynglŷn â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu	02
Justin Griffiths Welsh Liberal Democrats/Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	04
Ian Harrison Conservative Candidate – More Police, Safer Streets	06
Dafydd Llywelyn Plaid Cymru – The Party of Wales	08
Philippa Ann Thompson Labour and Co-operative Party/Llafur a'r Blaid Gydweithredol	10
Datganiad gan y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu ar gyfer Dyfed-Powys	12

Ynglŷn â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu

Ar 2 Mai, byddwch yn gallu pleidleisio dros eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Rôl y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw bod yn llais y bobl a dal yr heddlu i gyfrif.

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu hethol i ddwyn eich heddlu i gyfrif am ddarparu'r math o blismona yr hoffech chi ei weld. Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn gyfrifol am blismona yn ei gyfanrwydd yn eu hardal heddlu ac yn anelu at leihau trosedd a darparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon. Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn dod â llais cyhoeddus i blismona ac maent yn gwneud hyn drwy:

- Ymgysylltu â'r cyhoedd a dioddefwyr troseddau i helpu i osod cynlluniau plismona a throseddu;
- Sicrhau bod cyllideb yr heddlu yn cael ei gwario lle bo'r pwys mwyaf; a
- Penodi'r prif gwnstabl, ei ddwyn i gyfrif am gyflawni ei amcanion, a'i ddiswyddo os oes angen.

Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn "rhedeg" yr heddlu. Mae Prif Gwnstabiliaid yn parhau i fod yn gyfrifol am weithrediadau'r heddlu o ddydd i ddydd, ond maent yn atebol i'r cyhoedd drwy'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mewn rhai ardaloedd heddlu, mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd yn gyfrifol am y Gwasanaethau Tân ac Achub, a chânt eu hadnabod fel Comisiynwyr Heddlu, Tân a Throseddu. At hynny, mewn rhai ardaloedd, nid oes etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu na

Chomisiynydd Heddlu, Tân a Throseddu – yn lle hynny, bydd etholiad ar gyfer maer a fydd yn cyflawni swyddi'r ddau gomisiynydd hyn neu weithredu pwerau cyfatebol.

Bydd 37 o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu hethol ledled Cymru a Lloegr, a bydd pedwar ohonynt yn Gomisiynwyr Heddlu, Tân a Throseddu – ceir yr olaf yn Cumbria, Essex, Swydd Stafford, a Swydd Northampton.

Cydweithio ag eraill

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd yn gweithio gyda'ch cyngor a sefydliadau eraill i hyrwyddo a galluogi gweithio cydgysylltiedig ar ddiogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol. Fel unigolion a etholir yn uniongyrchol, maent yn darparu cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio a chraffu effeithiol ar wasanaethau cyhoeddus. Wrth wneud hynny, mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd yn rhoi sylw i fygythiadau trawssffiniol ar lefel genedlaethol, ac yn sicrhau bod ymateb plismona effeithiol ar waith.

Cynrychioli'r gymuned gyfan

Mae'n ofynnol i Comisiynwyr Heddlu a Throseddu dyngu llw o ddiueddrwydd pan gânt eu hethol i'w swydd. Mae'r llw wedi'i gynllunio fel y gallant nodi'n gyhoeddus eu hymrwymiad i'r canlynol: gwasanaethu'r holl bobl yn eu hardal heddlu; gweithredu gydag uniondeb a diwydrwydd; rhoi llais i'r cyhoedd; gweithredu'n dryloyw fel y gellir eu dwyn i gyfrif yn effeithiol; a pheidio ag ymyrryd ag annibyniaeth weithredol swyddogion yr heddlu.

Dewch o hyd i'ch ymgeisydd

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth am yr ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Gallwch hefyd archebu copi o'r llyfryn hwn yn y fformatau canlynol: print bras, Braille a sain.

I osod eich archeb, ewch i **www.dewisfynghhth.org.uk** neu ffoniwch **0300 1311323**.

Ynglŷn â'ch pleidlais

Mae angen i chi fod wedi cofrestru i allu pleidleisio.

Os nad ydych wedi cofrestru, ewch i **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio** neu cysylltwch â'ch cyngor lleol.

Os ydych wedi cofrestru ac yn gymwys i bleidleisio, gallwch naill ai bleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio, drwy'r post, neu drwy ddirprwy (gan ganiatáu i rywun rydych yn ymddiried ynndo bleidleisio ar eich rhan).

Caiff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu hethol gan ddefnyddio system bleidleisio'r cyntaf i'r felin, lle mae'r ymgeisydd gyda'r mwyaf o bleidleisiau yn ennill. Bydd pleidleiswyr yn pleidleisio drwy ddewis un ymgeisydd yn unig ar y papur pleidleisio. Dyma'r un system ag a ddefnyddir ar gyfer etholiadau Senedd y DU.

I gael rhagor o wybodaeth am eich pleidlais ewch i:

<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau>.

Justin Griffiths

Welsh Liberal Democrats/
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



Welsh Lib Dems
Dem Rhydd Cymru

Datganiad etholiad:

Os caf fy ethol, fy nod fydd rhoi gwasanaeth plismona mwy agored ac atebol ar waith yn y gymuned.

Byddwn yn ceisio ailgyflwyno plismona cymunedol priodol gan wneud yn siŵr bod swyddogion i'w gweld yn ein cymunedau ac nad ydynt yn cael eu dargyfeirio i feysydd eraill. Bydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn cyfiawnder troseddol yn flaenoriaeth hefyd, yn ogystal â rhoi argymhellion Comisiwn Thomas ar waith o ran datganoli pwerau.

Byddwn yn gweithredu gwasanaeth plismona tecach a mwy tosturiol e.e. pwyslais ar roi troseddwydwy cyffuriau ar raglenni adsefydlu. Dyma enghraifft o sut rydym yn ystyried y cyd-destun cyfan wrth leihau aildroseddu a gostwng nifer yr achosion llys sy'n cronni a nifer y bobl yn ein carchardai gorlawn.

Paratowyd yr araith gan Michael O'Carroll (Asiant), yn 4 Watergate, Brecon, LD3 9AN.

Manylion Cyswllt

Gwefan: <https://www.libdems.wales>

This page is intentionally left blank

Ian Harrison

Conservative Candidate –
More Police, Safer Streets



**Conservatives
Ceidwadwyr**

Datganiad etholiad:

Ian Harrison is a family man with 3 grown children, married to Anne, living in Guilsfield near Welshpool.

Now retired and a County Councillor, Ian's expertise are in global operations and innovation management, gained in the Brewing and Distilling industry and then Ethical Global Pharmaceuticals. He originally trained and qualified as a Master Brewer with a major UK Brewing Company. Following closure of the brewery where he was a packaging manager, he undertook the MBA course at Cranfield and moved into Corporate Management, firstly within Brewing and Distilling, and then Pharmaceuticals. His roles involved management troubleshooting, business process improvement, and improving competitive advantage.

These roles, whether within an operational or corporate context, involved significant attention to health and safety matters and, in the case of pharmaceuticals, strict attention to regulatory frameworks designed to ensure the safety and efficacy of new products and technologies. Hence, although he has no experience of policing, he fully appreciates the highly controlled framework within which they must operate.

If elected as Police and Crime Commissioner for Dyfed Powys Ian's immediate priorities will be focused upon Force performance within the context of the Annual HMIC reports and he would plan to come to an early agreement with the Chief Constable to address this issue.

Residents tell Ian that they want to see more police officers, and that they want action on anti-social behaviour, tackling County Lines gangs, domestic violence and rural crime.

Dyfed Powys is an enormous rural area to police, and Ian intends to spend his time visiting and listening to many stakeholders and interest groups as he develops specific plans and initiatives to reduce crime, make residents safer and reinforce interfaces with victim support groups.

This statement has been prepared by Ian Harrison's agent Christopher Kirkham, of 20 High St, Welshpool SY21 7JP.

Manylion Cyswllt

Gwefan: <https://www.everycrimematters.cymru>

E-bost: ian.harrison@everycrimematters.cymru


Facebook: [https://www.facebook.com/profile.](https://www.facebook.com/profile.php?id=61555497877847)

[php?id=61555497877847](https://www.facebook.com/profile.php?id=61555497877847)

Dafydd Llywelyn

Plaid Cymru – The Party of Wales

Plaid Cymru



Party of Wales



Datganiad etholiad:

Fel eich Comisiynydd presennol, mae plismona gweithredol, rheng flaen wedi dod o flaen gwleidyddiaeth pleidiol. Mae gennyf hanes cryf o gyflawni fy addewidion ac o wrando ar gymunedau Dyfed Powys. Rwy'n falch o'r hyn rwyf wedi'i gyflawni ers 2016, ond mae cymaint i'w wneud o hyd.

Rwy'n unigolyn hawdd mynd ato ac rwy'n credu mewn gwrandao ar bob aelod o'r gymuned er mwyn sicrhau heddlu llwyddiannus.

Ers 2016, rwyf wedi cynyddu adnoddau tra hefyd yn cadw'r lefelau treth gyngor isaf yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydym wedi gweld:

- 150 yn fwy o Swyddogion Heddlu;
- 150 yn fwy o Staff yr Heddlu;
- System TCC sy'n cael ei monitro 24/7 gan staff yr heddlu;
- Tîm troseddau gwledig penodedig;
- Ffocws ar ddelio cyffuriau llinellau sirol i dargedu troseddau trefniadol;
- Buddsoddi mewn Timau Troseddau leuenctid i ddargyfeirio pobl ifanc oddi wrth droseddu;

- Cynllun Dargyfeirio Troseddwy'r newydd i leihau aildroseddu.

Os byddaf yn cael fy ailethol:

- Byddaf yn diogelu adnoddau Plismona Bro gan gadw presenoldeb plismona lleol gweladwy;
- Byddaf yn buddsoddi yn y Ganolfan Gyfathrebu i sicrhau gwasanaeth hygyrch;
- Byddaf yn parhau i roi'r dioddefwr wrth galon y gwasanaeth a datblygu gwasanaeth a arweinir gan ddioddefwyr;
- Byddaf yn gweithio gyda staff gweithredol i gadw gorsafoedd heddlu lleol ar agor;
- Byddaf yn buddsoddi mewn rhaglen Heddlu Ysgol newydd ac wedi'i hadnewyddu i gyflawni gwaith ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol;
- Byddaf yn blaenoriaethu gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau ac asiantaethau i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Eich diogelwch yw fy mhrif flaenoriaeth. Rwyf am sicrhau bod Heddlu Dyfed Powys yn parhau i fod yn un o'r lleoedd mwyaf diogel i fyw ynddo yng Nghymru a Lloegr.

Hyrwyddwyd gan Arwel Lloyd, Pengwern, Rhydargaeau, Caerfyrddin, SA32 7DT.

Manylion Cyswllt

Gwefan: https://www.partyof.wales/police_commissioners

E-bost: d.llywelyn@btinternet.co.uk

Facebook: <https://www.facebook.com/DafyddLlywelyn2021>

X: x.com/dafyddllywelyn?s=11&t=SZtVpWOqrHfQkBDe

Ti-pyQ

Instagram: <https://www.instagram.com/dafyddllywelynpcc/>

dafyddllywelynpcc/

Philippa Ann Thompson

Labour and Co-operative Party/
Llafur a'r Blaid Gydweithredol



Datganiad etholiad:

Gwneud ein strydoedd yn ddiogel: Pleidleisiwch Philippa Thompson, Llafur a'r Blaid Gydweithredol.

Gwasanaethais yn y Gwasanaeth Diplomyddol, gan weithio gyda'r heddlu a gwasanaethau carchardai dramor, ar ddiogelwch o safbwynt hawliau dynol, ar reolaeth y gyfraith. Roeddwn yn arweinydd undeb etholedig, yn cynrychioli buddiannau miloedd o aelodau staff.

Rwy'n byw yng Ngorllewin Cymru gyda fy nheulu. Roedd fy hen dad-cu yn aelod o Heddlu Sir Benfro: gobeithio y byddai'n falch o wybod fy mod yn sefyll dros Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys.

Mae argyfwng enfawr mewn cyllid ar gyfer plismona a gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan Lywodraeth Geidwadol San Steffan gymaint i'w ateb am eu bod wedi dinistrio economi ein gwlad. Mae Llafur yn credu mai diogelwch yw'r sylfaen lle mae cyfleoedd yn cael eu hadeiladu, cymunedau yn ffynnu, ac economïau lleol yn ffynnu.

Yn hytrach na sefyll dros ddiogelwch, mae'r Toriaid wedi gwneud y gwrthwyneb. Doedd hyn ddim yn ddamwain – roedd yn ganlyniad i ddewisiadau bwriadol. Dewis i dorri'r heddlu o'n strydoedd, dewis i danseilio parch at reolaeth y gyfraith. Ni all ein cymunedau fforddio mwy o'r un peth. Mae'n rhaid i bethau newid.

Bydd Llafur yn heriol ar droseddu ac yn llym ar achosion troseddau. Mae angen i ni ailwampio'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau cymunedol yn gweithio gyda phobl ifanc, adfer gobaith, ond hefyd ymyrraeth gynnar gryfach. Mae angen gweithredu ar draws cymdeithas i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, ac mae angen plismona arnom wedi'i wreiddio yn ein cymunedau.

Rwy'n addo defnyddio fy mhrofiad i gefnogi ein heddlu fel y gall ein cymunedau fod ag ymddiriedaeth a hyder yn ein heddlu.

Mae hynny'n golygu cadw mewn cysylltiad agos â chi, a gweithio gyda Llywodraeth Lafur Cymru, fel ein bod yn gwneud dewisiadau gwell, tecach – ar gyfer dyfodol Cymru.

Paratowyd gan Marc Tierney, Asiant Etholiad, Bridge House, Swan Square, Hwlfordd, SA61 2AN.

Manylion Cyswllt

Ffôn: 07539410861

Gwefan: <https://party.coop/person/philippa-thompson/>

E-bost: philippathompsonppc@outlook.com

Facebook: <https://www.facebook.com/>

PhilippaThompsonLabour/

Datganiad gan y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu ar gyfer Dyfed-Powys

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr ymgeiswyr hynny (ble a ddarperir) a gwybodaeth arall sy'n ddefnyddiol i bleidleiswyr. Eu cyfrifoldeb hwy yw'r wybodaeth a ddarperir gan ymgeiswyr, ac efallai na fydd yn adlewyrchu fy marn i na fy nghyngor.

Fel Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu, fi sy'n gyfrifol am gydlynu'r etholiad a chyhoeddi'r canlyniad yn Heddlu Dyfed-Powys. Bydd etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu cynnal yn

Heddlu Dyfed-Powys ar 2 Mai 2024; yr ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad hwnnw, yn nhrefn yr wyddor yn ôl cyfenw (fel y byddant yn ymddangos ar y papur pleidleisio), yw:

- GRIFFITHS, Justin – Welsh Liberal Democrats/Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- HARRISON, Ian – Conservative Candidate – More Police, Safer Streets
- LLYWELYN, Dafydd – Plaid Cymru – The Party of Wales
- THOMPSON, Philippa Ann – Labour and Co-operative Party/
Llafur a'r Blaid Gydweithredol

Gallwch gysylltu â mi yn:

John Eifion Evans
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

eifion.evans@ceredigion.gov.uk

07583154822

<https://www.ceredigion.gov.uk/policeandcrimecommissionerelection2024>

Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur sydd i gyd wedi'i ailgylchu.

Pan fyddwch wedi gorffen gyda hwn, cofiwch ei ailgylchu.

*Cyhoeddir hwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Phwyllgorau,
2 Marsham Street, Llundain, SW1P 4DF*